Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 288 –28 Ebrill 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2006.

Adroddiad Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'w gyfarfod cyntaf. Croesawyd Rhian Gibson a Nerys Hopkins a diolchwyd i Elin Morris am ei gwaith yn ystod cyfnod mamolaeth NH.

Nodwyd y pwyntiau canlynol o fis cyntaf y Cadeirydd:
- Ymweliad a swyddfa Caernarfon.
- Noson Dai Jones yn Aberystwyth.
- Cyfarfod Michael Grade.
- Lawns Gwyl Telynnau yng Nghaernarfon.
- Tystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant Cynulliad.

Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr

Bydd cwyn Cyngor Sir Gwynedd ar Y Byd ar Bedwar yn cael ei drafod gerbron y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth ym mis Mai.

Drafft Adroddiad Blynyddol

Cyflwynwyd drafft i'r aelodau.

Adroddiad Prif Weithredwr

Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:-
- **BBC** – mae trafodaeth yn dal i barhau rhwng S4C a'r BBC parthed y partneriaeth strategol. Y nôd yw cyflwyno drafft i'r Awdurdod ym mis Mehefin.
- **Papur Gwyn** - Nodwyd bod y Cadeirydd a'r PW wedi rhoi tystiolaeth ar lafar gerbron Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad ar Bapur Gwyn a Siarter drafft y BBC.
- **BARB** - Nodwyd bod S4C wedi gwneud cais ffurfiol i BARB i ailbrosesu'r ffigurau am Tachwedd 2005 i Ionawr 2006.
- **BAFTA Cymru** - nododd y Cadeirydd ei longyfarchiadau gwresog i bawb oedd wedi ymwneud â'r 13 gwobr i S4C yn Seremoni BAFTA Cymru.
- **Cyfrwng** - cyflwynwyd copi o bapur ar Gynhadledd Cyfrwng.

Materion Eraill
Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Chwarter 1 Cynllun Corfforaethol
- Cyfarfod mis Gorffennaf